Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

17 Medi 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer darpariaethau yn ymwneud â chyflwyno hysbysiadau amddiffyn cymunedol, gorchmynion gwarchod mannau cyhoeddus, hysbysiadau cau a diwygiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991

## Cefndir

1. Ar 23 a 24 Mai 2013, gosododd Weinidogion Cymru bedwar Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona[1], sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.

2. Gosodwyd y Memorandwm hwn gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar 23 Mai.

3. Ar 4 Mehefin 2013, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'w ystyried, a chytunodd mai 19 Medi 2013 fyddai'r dyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno adroddiad.

4. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm ar 19 Mehefin.

5. Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi gwneud rhywfaint o waith ar y Memorandwm ac ar y mater ehangach sy'n ymwneud â rheoli cŵn. Mae llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw yn Atodiad A o'r adroddiad hwn.

[1] http://services.parliament.uk/bills/2013-14/antisocialbehaviourcrimeandpolicingbill.html

*Y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona ("y Bil")*

6. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw creu pwerau newydd a symlach i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, annog perchnogion cŵn i ymddwyn yn gyfrifol, mynd i'r afael â gangiau a grwpiau troseddu cyfundrefnol sy'n defnyddio arfau tanio anghyfreithlon, sicrhau bod priodasau o dan orfodaeth yn anghyfreithlon a gwella safonau proffesiynol yr heddlu.

7. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cywasgu'r 19 gorchymyn presennol o fewn 6 gorchymyn newydd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; yn galluogi dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd; yn caniatáu adfeddiannu tenantiaethau diogel a sicr yn orfodol pan fo tenant yn torri un o'r gorchmynion newydd; yn diwygio Deddf Cŵn Peryglus 1991 gan estyn ei darpariaethau i eiddo preifat; yn cynyddu'r gosb uchaf am fewnforio ac allforio arfau tanio; yn creu trosedd newydd o fod yn berchen ar arfau tanio i'w gwerthu neu eu trosglwyddo; yn sicrhau bod priodasau o dan orfodaeth yn anghyfreithlon; yn creu Coleg Plismona newydd a hefyd yn gwneud darpariaethau ynglŷn â rheolaethau ariannol i brif gwnstabliaid; ac yn estyn pwerau a chylch gwaith Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu.

*Prif effaith y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer*

8. O ran y Memorandwm hwn, gwneir cais am gydsyniad ar gyfer darpariaethau'r Bil fel a ganlyn:-

- Rhan 4, Pennod 1 – Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol;
- Rhan 4, Pennod 2 – Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus;
- Rhan 4, Pennod 3 – Cau Eiddo sy'n Gysylltiedig â Niwsans neu Anhrefn;
- Rhan 7 – Diwygiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991.

**Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol**

9. Mae'r Bil yn cyflwyno pŵer i berson awdurdodedig gyhoeddi Hysbysiad Amddiffyn Cymunedol (CPN). "Person awdurdodedig" yw: cwnstabl, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, awdurdod lleol neu berson (ee landlord cymdeithasol cofrestredig) a benodwyd gan awdurdod lleol.

10. Gellir cyhoeddi Hysbysiad Amddiffyn Cymunedol pan fydd person awdurdodedig yn fodlon bod unigolyn neu gorff yn ymddwyn mewn ffordd sy'n cael effaith andwyol yn fynych neu'n barhaus ar ansawdd bywyd y bobl leol, a bod yr ymddygiad yn afresymol.

11. Gallai Hysbysiad Amddiffyn Cymunedol ei gwneud yn ofynnol i berson y mae'n cyfeirio ato ymatal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau penodol, neu gymryd camau rhesymol i sicrhau canlyniadau penodol.

12. Mae paragraff 143 o'r nodiadau esboniadol a ddaw gyda'r Bil yn cadarnhau y bwriedir i Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol gwmpasu pob ymddygiad sy'n andwyol i ansawdd bywyd y gymuned leol. Nid yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol yn cynnwys unrhyw bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru.

13. Ym Mharagraffau 10 ac 11 o'r Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi enghreifftiau o sut y gellid defnyddio Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol. Yn arbennig, gelllid defnyddio Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol i fynd i'r afael â phroblemau a gaiff eu peri gan berchnogion cŵn anghyfrifol, fel cŵn yn cyfarth yn ddiddiwedd a chŵn allan o reolaeth.

14. Nid yw'n glir pa mor ddefnyddiol y bydd Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol o ran cŵn swnllyd; gall awdurdod lleol ymdrin eisoes â phroblemau fel hyn, fel niwsans statudol o dan Rhan 3 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae'r Bil yn darparu'n benodol na ellir cyhoeddi Hysbysiad Amddiffyn Cymunedol mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n cyfateb i niwsans statudol. Yn ychwanegol, gan mai ymddygiad perchennog y ci (ac nid y ci) sy'n gorfod bod yn afresymol, nid yw'n glir sut y bydd Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol yn mynd i'r afael â chŵn sydd allan o reolaeth, pan fydd y perchennog yn ymddwyn yn rhesymol.

15. Mae darpariaethau yn Rhan 7 o'r Bil (gweler isod) hefyd yn ymdrin â chŵn peryglus.

### Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus

16. Diben y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (PSPO) yw ymdrin â niwsans neu broblem benodol mewn ardal arbennig sy'n effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned leol. Bydd yn gosod amodau ar y defnydd o'r ardal honno. Bydd y gorchymyn yn disodli gorchmynion mannau cyhoeddus

dynodedig, gorchmynion llidiartu a gorchmynion rheoli cŵn. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol wneud Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â gofod cyhoeddus, os yw'r awdurdod lleol o dan sylw yn fodlon, ar sail resymol, bod gweithgareddau a gaiff eu cynnal mewn man cyhoeddus yn cael effaith ar ansawdd bywyd y bobl leol, neu ei bod yn debygol y bydd gweithgareddau a gaiff eu cynnal yn y man hwnnw yn cael yr un effaith. Rhaid iddo fod yn fodlon, hefyd, bod y gweithgareddau, neu ei bod yn debygol y bydd y gweithgareddau, yn rhai mynych neu barhaus, yn rhai afresymol, ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan yr hysbysiad.

17. Mae Cymal 61 yn nodi manylion am y mathau o briffyrdd na chânt fod yn ddarostyngedig i Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn gallu nodi mewn rheoliadau unrhyw gategorïau ychwanegol o briffyrdd na fyddant yn ddarostyngedig i gyfundrefn y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyheoddus. Bydd y rheoliadau hynny'n ddarostyngedig i weithdrefn negyddol yn y Cynulliad. Mae Rhan 8A o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn cynnwys pwerau tebyg ar gyfer Gweinidogion Cymru i ragnodi categorïau ychwanegol o briffyrdd na fydd 'gorchymyn llidiartu' (cysyniad tebyg i Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus) yn gymwys. Mae Llywodraeth Cymru yn datgan ym mharagraff 18 o'r Memorandwm nad yw'r pŵer erioed wedi cael ei ddefnyddio yng Nghymru.

***Cau Eiddo sy'n Gysylltiedig â Niwsans neu Anhrefn***

18. Mae'r Bil yn cyflwyno pŵer sengl newydd, sy'n disodli pedwar o'r pwerau presennol sydd ar gael i'r heddlu neu awdurdod lleol wrth fynd i'r afael â chau eiddo. Byddai'r pŵer sengl yn gymwys i eiddo trwyddedig ac eiddo preswyl preifat. Bydd swyddogion yr heddlu (sy'n arolygwyr, o leiaf) neu awdurdod lleol, yn gallu cyhoeddi hysbysiad cau mewn cysylltiad ag eiddo penodol. Gallant wneud hynny pan fyddant yn fodlon bod (i) y defnydd o'r eiddo hwnnw wedi arwain, neu'n debygol o arwain cyn bo hir, at niwsans i aelodau o'r cyhoedd, neu (ii) bod anhrefn wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd cyn bo hir ger yr eiddo hwnnw a (ii) bod angen gorchymyn er mwyn rhwystro'r niwsans neu'r anhrefn. Effaith gorchymyn cau yw cyfyngu ar fynediad i'r eiddo am hyd at 48 awr. Pan gyhoeddir hysbysiad, rhaid gwneud cais i lys ynadon i gael gorchymyn cau a gallai hyn bara hyd at uchafswm o dri mis (neu chwe mis os caiff ei ymestyn wedyn ar ôl gwneud cais i'r llys). Bydd y gorchymyn yn cyfyngu ar fynediad i eiddo yn unol â'r amodau a nodir

yn y gorchymyn. Gellir gwneud cais i ynad ar gyfer ei gyflawni, neu gellir gwneud apêl i Lys y Goron yn erbyn penderfyniad i wneud (neu yn erbyn gwrthod gwneud) gorchymyn.

***Cymhwysedd - Rhan 4***

19. Barn Llywodraeth Cymru yw bod Rhan 4, Penodau 1, 2 a 3 yn gyffredinol, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o dan Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("GOWA") mewn cysylltiad â phynciau a restrir o dan benawdau 1 (Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaid, planhigion a datblygu gwledig), 6 (Yr amgylchedd), 9 (Iechyd a gwasanaethau iechyd), 12 (Llywodraeth leol) a 15 (Lles cymdeithasol).

20. Fodd bynnag, mae Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol a Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus yn eang a gallent ymledu i feysydd polisi nad ydynt wedi'u datganoli. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, felly, nad yw yr holl ddarpariaethau yn Rhan 4 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn llwyr.

21. Nod y darpariaethau yw mynd i'r afael ag ymddygiad wrthgymdeithasol. Mae eithriad yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru ar gyfer "Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol) (gweler pennawd 12 "Llywodraeth leol"). Mae'n amlwg nad oes gan y Cynulliad gymhwysedd i ddiwygio na diddymu'r drefn ASBO bresennol mewn cysylltiad â Chymru. Fodd bynnag, gellir dadlau bod gan y Cynulliad gymhwysedd i ddeddfu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyffredinol, cyn belled â'i fod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n berthnasol i un neu fwy o'r pynciau yn Atodlen 7. Ar sail y farn hon, byddai angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gan fod Rhan 4 o'r Bil yn ymwneud â phynciau amrywiol yn Atodlen 7 (fel y rhestrir uchod).

22. Barn Llywodraeth y DU (gweler paragraff 86 o'r nodiadau esboniadol) yw bod Penodau 1 a 2 o Ran 4 (Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol a Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ond nad yw hyn yn wir am Bennod 3 (gorchmynion cau).

**Diwygiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 ('Deddf 1991").**

23. Mae'r Memorandwm yn cadarnhau y caiff diwygiadau i Ddeddf 1991 eu cynnig er mwyn ehangu'r drosedd mewn cysylltiad â 'ci sydd allan o reolaeth ac sy'n beryglus" i gwmpasu eiddo preifat, tra bo'r gyfraith ar hyn o bryd yn cwmpasu mannau cyhoeddus yn unig. Caiff pŵer swyddogion yr heddlu i ymafael mewn ci sydd allan o reolaeth ac sy'n beryglus ar eiddo preifat ei ehangu, ac mae'r Bil yn ei gwneud yn drosedd waethygedig i gi sydd allan o reolaeth ac sy'n beryglus anafu ci cymorth. Bydd amddiffyniad uwch o hunan-amddiffyniad ar gael i ddeiliad tŷ mewn achos pan fo tresmasydd mewn tŷ annedd preifat yn dod ar draws ci. Nodir y diwygiadau hyn yng Nghymal 98 o'r Bil.

24. Mae Cymal 99 o'r Bil yn diwygio Deddf 1991 mewn perthynas â'r prawf y mae'n rhaid i lys ei ystyried wrth asesu a yw ci yn beryglus ac felly'n agored i gael ei ddifa. Mae'r diwygiadau yn egluro'r gofyniad bod yn rhaid i lys, wrth ystyried a yw ci yn peri bygythiad i ddiogelwch y cyhoedd, ystyried (i) cymeriad perchennog neu geidwad y ci a (ii) natur y ci a'i ymddygiad blaenorol. Caiff y llys, hefyd, ystyried unrhyw amgylchiadau perthnasol eraill. Os bydd y llys yn penderfynu y byddai'r ci yn achosi perygl i ddiogelwch y cyhoedd, mae hyn yn ffurfio rheswm dros wneud gorchymyn i ddifa, yn hytrach na 'gorchymyn difa dibynnol' (pan y caiff y ci ei ddifa dim ond os caiff amodau'r gorchymyn dibynnol eu torri).

*Cymhwysedd - Rhan 7*

25. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y diwygiadau yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o dan Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("GOWA") mewn cysylltiad â phynciau a restrir o dan benawdau 1 (Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaid, planhigion a datblygu gwledig), 9 (Iechyd a gwasanaethau iechyd) a 15 (Lles cymdeithasol).

26. Ymddengys nad yw Llywodraeth y DU yn cytuno bod Rhan 7 o'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad (gweler paragraff 86 o'r nodiadau esboniadol). Mae hyn yn mynd yn groes i ymgynghoriad cynharach DEFRA 'Promoting more responsible dog ownership' nad oedd yn cynnwys Cymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon ar y sail a ganlyn *"the Parliament in Scotland and*

*Assemblies in Wales and Northern Ireland have powers to make legislation in relation to dangerous dogs".*

***Manteision defnyddio'r Bil hwn***

27. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ym mharagraff 34 o'r Memorandwm ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau mewn Bil y DU er mwyn sicrhau ffordd gyson o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn, hefyd, nad yw rhai darpariaethau, efallai, yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

28. Ar 2 Mai 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y Bil Rheoli Cŵn (Cymru) Drafft. Ynddo, eglurodd y Gweinidog:-

> "Mae'n glir i mi erbyn hyn, a finnau wedi adolygu'r gwaith ac wedi gwrando ar yr ymatebion, y gallai fod manteision gweithio gyda Llywodraeth y DU i roi ein cynigion ar waith ar lefel Cymru a Lloegr. Rwyf wedi edrych ar amodau'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol drafft sy'n cael ei gyhoeddi gan y Swyddfa Gartref ac er fy mod yn cydnabod bod beiau i'w gweld yn y bil drafft, rwyf serch hynny yn credu y gallai fod yn gyfrwng defnyddiol i wireddu'n huchelgais. I'r perwyl hwn, rwyf am gael cytundeb y Swyddfa Gartref fod y bil, os caiff fynd yn ei flaen, yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Gymru a fydd yn caniatáu i ni lywio'r ddeddfwriaeth arfaethedig mewn ffordd a fydd yn bodloni ein dau amcan ni ynghyd ag amcanion ehangach y Swyddfa Gartref. Rwyf felly wedi atal y gwaith ar Fil Rheoli Cŵn (Cymru) am y tro."

29. Nid yw'r Memorandwm yn egluro pam y byddai o fudd defnyddio'r Bil mewn perthynas â'r darpariaethau arbennig hyn. Noda'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru, tan yn ddiweddar, wedi cynnig cyflwyno ei Bil ei hun.

**Ein barn**

30. Rydym yn tynu sylw'r Cynulliad at y materion a amlinellir yn yr adroddiad hwn cyn ei ddadl ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
**Environment and Sustainability Committee**
Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

28 Awst 2013

Annwyl Christine

**Rheoli Cŵn**

Bu'r materion sy'n ymwneud â'r dull deddfu y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei ddefnyddio mewn cysylltiad â rheoli cŵn o ddiddordeb i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Câf ar ddeall y bu'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ystyried memorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â darpariaethau ym Mil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona Llywodraeth y DU ynghylch, ymysg materion eraill, rheoli cŵn.

O gofio bod ein gwaith yn y maes hwn yn gorgyffwrdd, nodaf isod y gwaith yr ydym wedi ei wneud yn y maes hwn yn y gobaith ei fod o ddiddordeb.

Ar 11 Gorffennaf 2013, cawsom dystiolaeth gan randdeiliaid er mwyni archwilio'r newid yn null  Llywodraeth Cymru o ddeddfu ar gyfer rheoli cŵn. Cawsom dystiolaeth gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA), Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) a Chymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA).

Er ein bod yn cydnabod manteision ystyried hyn o safbwynt Cymru a Lloegr, y farn a fynegodd rhanddeiliaid oedd y gallai'r ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n wreiddiol i ddeddfu ynghylch cŵn yn benodol fynd i'r afael â rheoli cŵn yn well na dull deddfu mwy cyffredinol Llywodraeth y DU (drwy ddefnyddio deddfwriaeth wrthgymdeithasol ehangach).

Ceir trawsgrifiad llawn o'r cyfarfod yn:
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s19431/11%20July%202013.pdf (O dudalen 27 yn y fersiwn PDF)

Ar 15 Gorffennaf, ysgrifennais at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd gyda nifer o gwestiynau:

> 'Mewn cysylltiad â rheoli cŵn, rwyf wedi gofyn pedwar cwestiwn i'w hateb yn ysgrifenedig yn y gobaith y gallwch ymateb iddynt yn yr ychydig wythnosau nesaf, os nad cyn y sesiwn ar 24 Gorffennaf.'
>
> ***Rheoli cŵn***
>
> Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn archwilio a fydd eich dull presennol o ddarparu'r polisi hwn yn bodloni'r dyheadau y bwriadwyd i'ch Bil drafft eu cyflawni. Cawsom dystiolaeth gan randdeiliaid ar 11 Gorffennaf 2013 ac efallai yr hoffech gael eich hysbysu o'r materion a godwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw.
>
> Er ei bod yn bosibl gofyn cwestiwn cyffredinol yn y maes hwn ar 24 Gorffennaf, nodaf isod bedwar cwestiwn y byddwn yn gwerthfawrogi ymateb ysgrifenedig iddynt. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ymateb erbyn dydd Gwener 2 Awst 2013, os yn bosibl.
>
> Mae paragraff 31 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi mai barn Llywodraeth Cymru yw bod darpariaethau Rhan 7 o'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona ('y Bil') yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Ymddengys nad yw Llwyodraeth y DU yn rhannu'r farn hon (Gweler paragraff 86 o'r Nodiadau Esboniadol a ddaw gyda'r Bil). A allwch chi gadarnhau:
>
> a) A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â Chŵn Peryglus;
>
> b) A fydd y cynnig yn ceisio cydsyniad mewn cysylltiad â Chymal 99 o'r Bil a ddrafftiwyd mewn ymateb i ddyfarniad *Sandhu*. Er bod y Memorandwm yn cyfeirio at Adran 7 o'r Bil, nid oes unrhyw sôn am adran 99;
>
> c) A oes gan y Cynulliad, yn eich barn chi, y cymhwysedd angenrheidiol i gyflwyno eithriad i "achos deiliad tŷ" fel sydd wedi'i gynnwys yng Nghymal 98 (2) (b) o'r Bil; a

ch) Pam yr ydych o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r Bil yn hytrach na chyflwyno deddfwriaeth ar wahân.'


Ar 24 Gorffennaf 2013, yn ystod ein sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, cododd Julie Morgan y mater o ddeddfwriaeth rheoli cŵn gyda'r Gweinidog.

Ceir trawsgrifiad o'r cyfarfod hwn yn: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s19567/24%20July%202013.pdf (gweler colofnau 11-23, o dudalen 3 yn y fersiwn PDF).

Ymhellach i'r sesiwn dystiolaeth lafar hon, atebodd y Gweinidog gwestiynau ysgrifenedig y Pwyllgor ar 7 Awst 2013. Mae ei lythyr ar gael yn: http://tinyurl.com/nowd4zm

Nid yw'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi gorffen ystyried y mater hwn. Fodd bynnag, credaf y gallai'r dystiolaeth a gasglwyd gennym hyd yma fod o ddiddordeb i chi a'ch Pwyllgor wrth adrodd ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol y cyfeirir ato uchod.

Yn gywir



**Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyed